**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 14eg Ionawr 2004 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybod i'r Aelodau am y penderfyniadau a wnaeth y Prif Swyddog Tân ac a gadarnhaodd y Cadeirydd ynghylch caniatáu ymestyn tâl salwch.<br><br>Rhoi gwybod i'r Aelodau am lefelau absenoldebau salwch yr Awdurdod. |

1. **<u>YMESTYN TÂL SALWCH</u>**

1.1 Ers y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ar 27ain Hydref 2003, caniatawyd pedwar estyniad i dâl salwch.

1.2 Mewn un achos, roedd yr hawl i chwe mis o dâl llawn wedi dod i ben a chaniatawyd estyniad i dâl llawn am gyfnod pellach o chwe mis, neu ddychwelyd i'r gwaith, p'un bynnag fyddai'n digwydd gyntaf.

Mewn dau achos, roedd yr hawl i chwe mis o dâl llawn wedi dod i ben a chaniatawyd tâl ar 50% o'r cyflog llawn am gyfnod o chwe mis, neu ddychwelyd i'r gwaith, p'un bynnag fyddai'n digwydd gyntaf.

Mewn un achos roedd yr hawl i chwe mis o dâl llawn wedi dod i ben a chaniatawyd estyniad am gyfnod o dri mis, neu ddychwelyd i'r gwaith, p'un bynnag fyddai'n digwydd gyntaf.

1.3 Yn y cyfnod dan sylw, mae tri yn staff lifrai rhan amser ac un yn weithiwr lifrai llawn amser gyda'r Gwasanaeth.

2. **<u>Y LEFELAU ABSENODEBAU SALWCH</u>**

2.1 Ceir gwybodaeth ynghlwm yn cymharu cyfraddau absenoldebau salwch y cyfnod Ebrill – Hydref 2003 gyda'r un cyfnod y llynedd.

2.2 Absenoldebau salwch tymor hir yw'r rhan fwyaf o'r absenoldebau salwch yn y Gwasanaeth.

2.3 Gofynnir i'r aelodau nodi mai oherwydd cynnydd mewn absenoldebau salwch tymor hir yn bennaf y mae cynnydd yn y lefelau absenoldebau salwch yn y cyfnod dan sylw o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

3. **<u>ARGYMHELLIAD</u>**

3.1 I nodi'r adroddiad.

CYMHARIAETH O'R CYFRADDAU SALWCH

**Union nifer y shifftiau/dyddiau a gollwyd rhwng Ebrill 2002 a Hydref 2002 (ac eithrio cyfnodau gwyliau) yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

**( 7 mis)**

| Categori Staff | Nifer y staff ar gyfartaledd | Nifer o shifftiau/ dyddiau a gollwyd i salwch **byr dymor** | Y nifer ar gyfartaledd o shifftiau/ dyddiau a gollwyd fesul unigolyn i salwch **byr dymor** | Nifer o shifftiau/ dyddiau a gollwyd i salwch **hir dymor** | Y nifer ar gyfartaledd o shifftiau/ dyddiau a gollwyd fesul unigolyn i salwch **hir dymor** |
|---|---|---|---|---|---|
| Staff Shifftiau Llawn Amser | 132 | 224 | 1.70 | 521 | 3.94 |
| Staff Criw Dydd | 78 | 209 | 2.68 | 377 | 4.83 |
| Staff Dyletswydd Dydd/Hyblyg | 69 | 63 | 0.91 | 156 | 2.26 |
| Staff yr Ystafell Reoli | 31 | 71 | 2.29 | 128 | 4.13 |
| Staff Di-lifrai | 89 | 156 | 1.75 | 327 | 3.67 |
| Staff Lifrai Llawn Amser | 310 | 567 | 1.83 | 1182 | 3.81 |
| **Holl Staff** | **399** | **723** | **1.81** | **1509** | **3.78** |

**Union nifer y shifftiau/dyddiau a gollwyd rhwng Ebrill 2003 a Hydref 2003 (ac eithrio cyfnodau gwyliau) yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

**( 7 mis)**

| Categori Staff | Nifer y staff ar gyfartaledd | Nifer o shifftiau/ dyddiau a gollwyd i salwch **byr dymor** | Y nifer ar gyfartaledd o shifftiau/ dyddiau a gollwyd fesul unigolyn i salwch **byr dymor** | Nifer o shifftiau/ dyddiau a gollwyd i salwch **hir dymor** | Y nifer ar gyfartaledd o shifftiau/ dyddiau a gollwyd fesul unigolyn i salwch **hir dymor** |
|---|---|---|---|---|---|
| Staff Shifftiau Llawn Amser | 134.7 | 307 | 2.28 | 638 | 4.74 |
| Staff Criw Dydd | 85.4 | 217 | 2.54 | 321 | 3.76 |
| Staff Dyletswydd Dydd/Hyblyg | 70.9 | 43 | 0.60 | 628 | 8.86 |
| Staff yr Ystafell Reoli | 30.6 | 80 | 2.61 | 79 | 2.58 |
| Staff Di-lifrai | 92.1 | 264.5 | 2.87 | 394 | 4.28 |
| Staff Lifrai Llawn Amser | 321.6 | 647 | 2.01 | 1666 | 5.18 |
| **Holl Staff** | **413.7** | **911.5** | **2.20** | **2060** | **4.98** |



Cyfran Absenoldeb Salwch Tymor Byr / Hir Ebrill - Hydref 2002
20.00
18.00
16.00
14.00
12.00
10.00
8.00
6.00
4.00
2.00
0.00
Llawn Amser Shifftiau
Criw Dydd
Dylestwydd Dydd/Hyblyg
Ystafell Reoli
Di-lifrai
Lifrai Llawn Amser
Holl Staff
Tymor Hir
Tymor Byr




20.00
18.00
16.00
14.00
12.00
10.00
8.00
6.00
4.00
2.00
0.00
Llawn Amser Shifftiau
Criw Dydd
Dylestwydd Dydd/Hyblyg
Ystafell Reoli
Di-lifrai
Lifrai Llawn Amser
Holl Staff
Tymor Hir
Tymor Byr